

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

POLISI DERBYN YSGOLION 2021-22

Ebrill 2020



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

1.0 DERBYN PLANT I YSGOL

1.1 Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998 yn neilltuo swyddogaeth i Awdurdodau Derbyn, Paneli Apêl a Fforwm Derbyn mewn perthynas â derbyn disgyblion i'r Ysgol.

1.2 **Awdurdod Sir Gaerfyrddin, ac nid yr Ysgol, yw'r Awdurdod Derbyn** ar gyfer yr holl Ysgolion a gynhelir a'r Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn Sir Gaerfyrddin. Y Corff Llywodraethu unigol yw'r Awdurdod Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr.

1.3 Mae dyletswydd statudol ar bob un o'r cyrff hyn i "weithredu" yn unol â'r Côd Derbyn i Ysgolion a'r Côd Apelau Derbyn i Ysgolion.

1.4 Yn unol â'r Côd Derbyn Plant i Ysgol mae'r Awdurdod am gael barn y Corff Llywodraethu mewn perthynas â threfniadau a Pholisi Derbyn Plant i Ysgol yr Awdurdod.

2.0 AWDURDODAU DERBYN

2.1 Awdurdodau Derbyn

Rheolir y drefn o dderbyn plant i ysgolion gan Awdurdod Derbyn.

(a) Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn Sir Gaerfyrddin

Yn achos ysgolion cymunedol (a adnabuwyd gynt fel ysgolion sirol) ac ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn Sir Gaerfyrddin, Awdurdod Lleol (ALI) Sir Gaerfyrddin yw'r Awdurdod Derbyn. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin fel a ganlyn:-

Tîm Derbyniadau,

Cyngor Sir Caerfyrddin

Yr Adran Addysg a Phlant,

Adeilad 2,

Parc Dewi Sant,

Heol Ffynnon Job,

Caerfyrddin. SA31 3HB.

Rhif ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

(b) Ar gyfer Ysgolion mewn Awdurdodau Cyfagos

O gofio natur ddaearyddol Sir Gaerfyrddin mae'n rhannu ffiniau gydag Awdurdodau Lleol eraill.

Pe bai'r ysgol yr ydych eisiau i'ch plentyn fynd iddi mewn ardal awdurdod lleol arall dylech gysylltu â'r Awdurdod hwnnw.

(c) Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn Sir Gaerfyrddin

Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir Catholig Rhufeinig, yr Awdurdod Derbyn yw Corff Llywodraethu yr ysgol unigol.

2.2 DEWIS YSGOL

(a) Ysgol Leol/Dalgylch

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod yna berthynas bwysig rhwng ysgol a'i chymuned. Oherwydd hynny, mae'r Cyngor wedi dynodi ardal ddaearyddol benodedig y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu sy'n cael ei galw'n dalgylch yr ysgol.

Mae manylion dalgylch ysgol ar gael yn yr ysgol, ar [wefan](#) y Cyngor Sir neu oddi wrth yr Awdurdod Derbyn perthnasol.

Er nad yw byw yn nalgylch ysgol yn gwarantu lle yn yr ysgol mae'n ffactor bwysig gan y bydd yn rhoi blaenoriaeth uwch i'r cais na cheisiadau gan unigolion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

Mae byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol hefyd yn bwysig gan fod hyn yn un o'r meini prawf allweddol wrth asesu a yw rhywun yn gymwys i dderbyn cymorth gyda chludo plentyn o'r cartref i'r ysgol. Ceir manylion y polisi ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol [yma](#).

Cyn gwneud cais am le mewn ysgol mae'r Cyngor yn eich cyngori'n gryf i gysylltu a thrafod materion gyda'ch ysgol leol ac os yn bosib **mynd i'w gweld** fel eich bod yn gwybod am y cyfleusterau a'r cyfleoedd allant eu cynnig.

(b) Dewisiadau Rhieni

Fel y nodwyd, mae'r Cyngor yn awgrymu mai'r pwynt cyswllt cyntaf wrth ddewis ysgol fyddai'r ysgol dalgylch leol.

Er bod y rhan fwyaf o rieni yn danfon eu plentyn i'r ysgol dalgylch leol, mae gan rieni hawl i ddatgan blaenoriaeth i ysgolion gwahanol. Os ydych yn dymuno gwneud hynny argymhellir eich bod yn **cysylltu â'r ysgol rydych yn meddwl amdani cyn gwneud dewis terfynol.**

Os ydych yn dewis ysgol nad yw'n ysgol dalgylch leol ichi nac yr ysgol agosach at eich cartref, dylech gofio fod rhai materion ymarferol y mae angen ichi eu hystyried yn llawn cyn gwneud penderfyniad.

Y cyntaf yw os nad yw'r plentyn yn mynd i'r ysgol dalgylch leol ichi neu'r ysgol agosaf at eich cartref a bod y penderfyniad hwnnw yn seiliedig ar ddewis rhieni, fod y cyfrifoldeb a'r gost o gludo'r plentyn i'r ysgol ac yn ôl yn gorwedd yn llwyr yn nwylo'r rhieni/gofalwyr.

Mae rhieni'n dweud fod hynny'n gallu bod yn broblem arbennig os oes ganddynt frawd neu chwaer iau nad yw'n cael ei dderbyn yn yr un ysgol gynradd.

Doeth felly yw ystyried a chynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn cyn gwneud cais am le mewn ysgol y tu allan i'r dalgylch.

Mae'r ail fater yn ymwneud â'r adeg pan mae disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r sector uwchradd. Mae cael lle mewn ysgolion uwchradd yn seiliedig ar a ydy eich cyfeiriad cartref o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd. Nid yw'n seiliedig ar ba ysgol gynradd y buwyd ynddi. Felly, pan mae disgybl wedi bod i ysgol gynradd nad yw'n ysgol dalgylch benodedig leol iddynt mae mwy o debygrwydd na fyddant yn gallu trosglwyddo i'r un ysgol uwchradd â'u cyfoedion a'u cyd-ddisgyblion.

Ni fydd y materion hyn yn berthnasol i lawer, ond gan eu bod wedi creu anawsterau i rieni yn y gorffennol argymhellir eich bod yn eu hystyried ac yn cynllunio ar eu cyfer cyn gwneud eich dewis terfynol.

Bydd y Cyngor a llywodraethwyr ysgol yn cydymffurfio'n gyfreithlon ag unrhyw fynegiant o flaenoriaeth i ysgol benodol. Fel gyda phob cais bydd blaenoriaeth i ysgol benodol yn gorfod cael ei hystyried a'i hasesu yn rhan o'r broses dderbyn i sicrhau nad yw'r Awdurdod yn mynd heibio'r terfyn ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol honno ar gyfer y grŵp blwyddyn penodol.

(c) Dewisiadau Rhieni – Disgyblion a Eithriwyd Ddwywaith

Os yw disgybl wedi cael ei eithrio'n barhaol o ddwy ysgol neu ragor yn barod, er y gall rhiant ddatgan blaenoriaeth i ysgol y maen nhw'n dymuno i'w plentyn gael eu haddysgu ynddi, nid oes raid i'r Awdurdod Derbyn gydymffurfio â'r dewis hwnnw am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad yr eithriad diweddaraf.

Nid yw hynny'n berthnasol i fyfyrwyr sydd â datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant o dan oed ysgol gorfodol, plant a gafodd le ysgol yn ôl, neu a fyddai wedi cael lle yn ôl pe bai wedi bod yn ymarferol gwneud hynny, neu blant sy'n derbyn gofal pan wneir y cais am le gan y rhiant corfforaethol.

(ch) Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig

Mae gan rai plant anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig a/neu anabledd sy'n golygu fod angen gwneud darpariaeth ychwanegol ar eu cyfer fel y gallant ddysgu'n effeithiol. Mewn amgylchiadau o'r fath trowch at adran Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig y llyfryn hwn.

2.3 NIFER DERBYN YR YSGOL – TERFYN AR NIFER Y DISGYBLION A DDERBYNNIR

Mae gan bob ysgol Nifer Derbyn (ND) sy'n nodi a chyfyngu ar faint o ddisgyblion y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Rhoddir y ND ar gyfer pob ysgol yn y rhestr o ysgolion yn Atodiad A.

Pennwyd y ND ar gyfer pob ysgol trwy ddefnyddio'r fformiwla maint a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol (Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru – Cylchlythyr 021/2011) ac mae'n ymwneud ag arwynebedd ffisegol adeiladau'r ysgol, y math o gyfleusterau sydd yn yr ysgol, ystod oed a nifer y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.

Gan fod y ND yn seiliedig ar allu'r ysgol i ddarparu lle a chyfleusterau addas ar gyfer disgyblion ni ddylid mynd heibio'r terfyn hwnnw.

Mae'r ND yn berthnasol i'r grŵp oed y derbynnir y disgyblion iddo yn yr ysgol, ac mae'n gosod terfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn. Yn y flwyddyn dderbyn arferol rhaid i'r Awdurdod Derbyn dderbyn disgyblion i fyny at eu Nifer Derbyn hyd nes y cyrhaeddir y ND. Os yw nifer y ceisiadau a dderbynnir am leoedd mewn ysgol yn fwy na'r ND bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniodd yn unol â'r meini prawf ar gyfer gor-alw a nodir yn y ddogfen hon.

Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n bosib na fydd rhieni yn llwyddo cael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol.

Rhaid i lywodraethwyr ysgol a'r Awdurdod Lleol gadw golwg gyson ar y ND.

2.4 DOSBARTHIAD YSGOLION

Mae pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu dosbarthu'n ysgolion cydaddysgol yn yr ystyr eu bod yn darparu ar gyfer bechgyn a merched, ac oni nodir yn wahanol maent yn ysgolion dyddiol ac nid yn ysgolion preswyl.

Oni nodir yn wahanol, mae ysgolion uwchradd yn cael eu dosbarthu'n ysgolion cyfun.

2.5 GRWPIAU BLWYDDYN ERAILL

Bydd ceisiadau am leoedd i ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn sy'n wahanol i'r grŵp blwyddyn arferol yn seiliedig ar ddyddiad geni disgybl yn cael eu hystyried fesul un, a lle y mae hynny'n berthnasol yn ôl y meini prawf ar gyfer gor-alw a esbonnir yn y llyfryn hwn.

2.6 ADDYSG YN Y CARTREF

Gall rhieni ddewis hefyd addysgu eu plant gartref. Yr enw ar hyn yw Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae'r penderfyniad i addysgu gartref yn fater y dylid meddwl yn ofalus amdano, gan ei fod yn golygu ymrwymiad, amser a chost sylweddol.

Os ydych yn ystyried y dewis hwn awgrymir y dylech gysylltu â'r awdurdod lleol a gofyn am arweiniad gan y Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref drwy ffonio 01267 246727.

2.7 AR BA OED Y GALL PLANT DDECHRAU YSGOL?

Blynyddoedd Cynnar - Addysg Feithrin i Blant 3 Oed (Rhan Amser)

Mae addysg Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd rhaid gwneud cais am le mewn ysgol, h.y. ar gyfer categorïau (i) a (ii) isod, i'r Awdurdod Derbyn erbyn yr **31 Gorffennaf 2021** os yw eich plentyn i fod i ddechrau mewn darpariaeth oed meithrin mewn ysgol ym mis **Ionawr, Ebrill neu Fedi 2022**.

Mae sawl math o ddarpariaeth:-

- I. Ysgol Feithrin – Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin yn y Sir.
- II. Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgolion Cynradd.
- III. Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawliau Bore Oes, mudiadau fel Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, Mudiad Meithrin a darparwyr preifat. Gall Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin eich cynorthwyo yn y broses hon. Cysylltwch drwy e-bostio gwybplant@sirgar.gov.uk neu drwy ffonio 01267 246555.

Mae hawl gan bob plentyn 3 blwydd oed gael lleoliad am ddim am 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig trwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd.

Fel rheol, derbynnir plant i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd fel a ganlyn:-

- yn Ionawr i'r rhai sy'n cael eu 3ydd pen-blwydd rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr;
- yn Ebrill i'r rhai sy'n cael eu 3ydd pen-blwydd rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth;
- ym Medi i'r rhai sy'n cael eu 3ydd pen-blwydd rhwng 1 Ebrill a 31 Awst.

Nid oes gan rieni hawl i apêl os na chynigir lle i'w plentyn yn eu dewis lleoliad blynyddoedd cynnar. **Ni fydd** gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar neu feithrin mewn ysgol **hawl 'awtomatig' i barhau i dderbyn eu haddysg yn nosbarth derbyn yr ysgol honno.**

Rhaid gwneud cais ffurfiol i'r Cyngor i gael lle amser llawn (yn 4 oed) yn yr ysgol. Mae disgyblion yn gymwys i ddechrau'r ysgol ar ddechrau'r tymor pryd y bydd y disgybl yn cael ei bedwerydd pen-blwydd.

Dylid cyflwyno ceisiadau am le i'r Cyngor erbyn 31 Gorffennaf 2021 os yw eich plentyn am ddechrau yn yr ysgol ym mis Ionawr, Ebrill neu Fedi 2022.

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i meini prawf gor-alw a nodir yn y ddogfen hon.

Lle mae'n ymarferol mae'r Awdurdod Derbyn yn caniatáu i ddarparwyr heb gael eu cynnal ddefnyddio adeiladau ysgol ac mae nifer yn manteisio ar y fath gyfleuster.

Lle Amser Llawn (Plant 4 Oed)

Lle nad oes darpariaeth blynnyddoedd cynnar mewn lleoliad wedi'i gynnal, wedi i gais gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod, mae plant yn cael eu derbyn yn amser llawn **yn y tymor pan maent yn troi'n 4 oed**, ar yr adegau canlynol:-

- ym Medi i'r rhai sy'n cael eu 4ydd pen-blwydd rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr;
- yn Ionawr i'r rhai sy'n cael eu 4ydd pen-blwydd rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth;
- yn Ebrill i'r rhai sy'n cael eu 4ydd pen-blwydd rhwng 1 Ebrill a 31 Awst.

Gofyniad cyfreithiol i ddechrau'r ysgol (Plant 5 Oed)

Yn ôl y gyfraith rhaid i rieni drefnu bod eu plant yn cael addysg amser llawn ar ddechrau'r tymhorau canlynol:-

- Tymor yr Hydref ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1 Ebrill a 31 Awst;
- Tymor y Gwanwyn ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr;
- Tymor yr Haf ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth.

Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod plentyn yn dechrau'r ysgol tan **y tymor sy'n dilyn pumed pen-blwydd y plentyn**.

Gall rhiant ohirio dyddiad derbyn plentyn i'r ysgol tan ddechrau'r tymor sy'n dilyn pumed pen-blwydd y plentyn cyhyd â bod y dyddiad hwnnw o fewn yr un flwyddyn ysgol.

Yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gosodir terfyn o 30 o ddisgyblion ar ddsbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Dylid cyflwyno ceisiadau am le i'r Cyngor erbyn 31 Ionawr 2021 os bydd plentyn yn dechrau ysgol ym Medi 2021, Ionawr neu Ebrill 2022.

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i meini prawf gor-alw a nodir yn y ddogfen hon.

2.8 PROSES GWNEUD CAIS

Yr Angen i Wneud Cais

Mae'n rhaid i riant/gofalwr gwblhau cais ar gyfer derbyn disgybl i ysgol i'r Cyngor neu, ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr, dylid gwneud ceisiadau i'r Corff Llywodraethu.

Bydd y ffurflen gais yn gofyn i riant/gofalwr restru'r dewis o ysgol yn ôl y dewis 1^{af}, yr 2^{il} ddewis a'r 3^{ydd} dewis.

Dim ond y cais diweddaraf a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau fydd yn cael ei dderbyn. Ni fydd unrhyw geisiadau blaenorol yn cael eu prosesu. Bydd unrhyw geisiadau dilynol a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn cael eu prosesu fel cais hwyr.

Cewch wybod gan yr Awdurdod Derbyn a fu'r cais yn llwyddiannus ai peidio. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a wneir ar ran plentyn mewn gofal gan riant corfforaethol os mai'r Cyngor yw'r rhiant corfforaethol a'r Awdurdod Derbyn.

Ni all unrhyw Ysgol Gymunedol nac Ysgol Wirfoddol a Reolir awdurdodi derbyn disgybl.

Sut i Wneud Cais

Wedi i'r riant/gofalwr benderfynu pa ysgol y mae am i'w blentyn/plant ei mynychu dylai gyflwyno cais i'r Awdurdod Derbyn priodol.

Ar gyfer ysgolion Cymunedol ac ysgolion Gwirfoddol a Reolir gellir gwneud hyn:-

- *Yn uniongyrchol ar-lein trwy ddefnyddio gwefan yr Awdurdod Lleol*
<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/addysg-ac-ysgolion/derbyn-i-ysgolion-newid-ysgol>
- *Trwy gysylltu â'r ysgol;*

Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

- *Cyflwyno cais yn uniongyrchol i'r ysgol*
- *Cyflwyno cais ar-lein trwy wefan Cyngor Sir Caerfyrddin*

Cyn gwneud cais argymhellir bod rhieni'n cysylltu â'u dewis ysgol yn uniongyrchol. Bydd gan yr ysgol fap o'i dalgylch a gall gynorthwyo rhieni trwy ddarparu gwybodaeth arall am yr ysgol a'r trefniadau derbyn.

Pryd i Wneud Cais – Y Cylch Gwneud Cais

Dyma'r dyddiadau cau perthnasol ar gyfer ceisiadau:-

Dyddiad Cau: **31 Gorffennaf 2021** ar gyfer **Disgyblion Oed Meithrin (Rhan Amser) sy'n 3 oed**, sy'n dechrau ym mis **Ionawr, Ebrill neu Fedi 2022**.

Dyddiad Cau: **31 Ionawr 2021** ar gyfer **disgyblion cynradd (Amser Llawn) 4 oed**, sy'n dechrau ym mis **Medi 2021, Ionawr neu Ebrill 2022**.

Dyddiad Cau: **18 Rhagfyr 2020** ar gyfer disgyblion sy'n dechrau mewn **Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2021**.

Gall gwneud cais hwyr olygu fod eich plentyn yn colli blaenoriaeth am le yn eich dewis ysgol. Mae'r ceisiadau hyn yn cael eu galw'n Geisiadau Hwyr.

Ein bwriad yw cyhoeddi llythyron penderfyniad ynglŷn â'r ceisiadau **Ysgolion Uwchradd ar 1 Mawrth 2021** ac ar **16 Ebrill 2021** ar gyfer ceisiadau **Ysgolion Cynradd**.

Llenwi'r Ffurflen Gais

Cyfeiriad Cartref

Bernir mai cyfeiriad cartref disgybl yw eiddo preswyl sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r plentyn, ac sydd naill ai:-

- Yn eiddo i riant/rhieni'r plentyn neu i berson a chanddo gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol penodedig am y plentyn; neu
- Wedi'i brydlesu neu ei rentu gan riant/rhieni y plentyn neu gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn unol â chytundeb rhent ysgrifenedig, ac wedi'i lofnodi gan y landlord a'r tenant, am gyfnod o chwe mis neu ragor.

Prawf o'ch Cyfeiriad

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ofyn am brawf o gyfeiriad ar yr adeg y cynigir lle i'r plentyn.

Er mwyn i'r cais gael ei ystyried fel rhan o'r cylch derbyn arferol, mae'n bosibl y bydd angen ichi ddarparu prawf eich bod yn byw yn y cyfeiriad a nodwyd ar y ffurflen gais.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw ddwy ddogfen o blith y canlynol yn gymorth ar gyfer penderfynu eich bod yn byw mewn cyfeiriad penodol:-

- (a) Bil y Dreth Gyngor neu Fudd-dal Tai gwreiddiol neu lythyr hysbysu nad yw'n fwy na 12 mis oed;
- (b) Bil cyfleustod gwreiddiol (nad yw'n fwy na 3 mis oed);
- (c) Llythyr dyfarnu gwreiddiol ynghylch Budd-dal Plant neu Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol – nad yw'r dyddiad arno'n fwy na thri mis yn ôl, a'i fod yn nodi enw/enwau y plentyn/plant);
- (ch) Cytundeb tenantiaeth/prydles wedi'i lofnodi a'i ddyddio, sy'n para am o leiaf chwe mis ond sydd â mis neu ragor ar ôl ar y cytundeb;
- (d) Cyfriflen cerdyn credyd neu gyfrif banc wreiddiol sy'n dangos y cyfeiriad (heb fod yn fwy na mis yn ôl);
- (dd) Cadarnhad ysgrifenedig gan Fanc neu Gymdeithas Adeiladu'r ymgeisydd yn cadarnhau manylion y newid cyfeiriad ac ar ba ddyddiad y digwyddodd y newid;

(e) Trwydded yrru llun adnabod gyfredol ddilys.

Fel rhan o'r broses dderbyn mae'n bosibl y bydd angen ichi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad mewn cysylltiad â'ch cais. Bydd yr Awdurdod yn ceisio gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd ac mae'n cadw'r hawl i fynnu bod ymgeisydd yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol i gadarnhau'r breswyliaeth neu i gymryd camau rhesymol i bennu a yw cais yn dwyllodrus ai peidio.

Os caiff lle ei gynnig mewn ysgol yn seiliedig ar gyfeiriad y canfyddir wedyn ei fod yn wahanol i gyfeiriad arferol a pharhaol y plentyn, yna mae'n bosibl y caiff y lle ei dynnu'n ôl.

Os bydd rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol dros y plentyn yn rhoi datganiad anwir, gan wybod a chan fwriadu hynny, a fyddai'n effeithio ar lwyddiant eu cais, yna mae'n bosibl y caiff y lle ei dynnu'n ôl.

Os na ddarperir prawf preswyliaeth ar gais yna ni fydd yr Awdurdod yn gallu prosesu'r cais ac mae'n bosibl y caiff y lle ei ddyfarnu i ddisgybl arall.

Symud Tŷ / Newid Cyfeiriad

Os ydych yn bwriadu symud tŷ ac rydych yn cyflwyno cais am le mewn ysgol ar sail y cyfeiriad newydd, bydd y Cyngor yn cymryd camau i wirio'r trefniadau. Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn llythyr cyfreithiwr yn datgan y cyfnewidiwyd contractau ac yn nodi'r dyddiad cwblhau neu gytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi a'i ddyddio fel y nodwyd yn (ch) uchod. Os na allwch ddarparu prawf o'ch cyfeiriad erbyn y dyddiad a roddir ar gyfer cael ceisiadau yna bydd eich cais yn cael ei seilio ar eich cyfeiriad cyfredol.

Rhannu Cyfrifoldeb

Pan fydd y cyfrifoldeb am y plentyn yn cael ei rannu, a phan fydd y plentyn yn byw gyda'r ddau riant, neu bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol penodedig am y plentyn, am ran o'r wythnos, y brif breswylfa fydd y cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Defnyddir cyfeiriad y person sy'n derbyn Budd-dal Plant yn brif breswylfa lle mae'r cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn wedi'i rannu 50:50.

Mae'n bosibl y gofynnir i'r rhieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol a fydd yn ategu'r cyfeiriad a ddefnyddir pan gaiff lle ei gynnig.

Ceisiadau Cynnar

Sylwch na ellir defnyddio cais cynnar yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu lleoedd.

Ceisiadau Hwyr

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau sydd wedi dod i law cyn y dyddiad cau wedi cael lleoedd.

Ysgolion Dau Safle

Pan gyflwynir cais ar gyfer derbyn i ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo derbyn i'r ysgol ac nid i safle penodol. Yr ysgol fydd yn penderfynu pa safle y bydd y plentyn yn ei fynychu.

Rhestr Aros

Pan na fu modd derbyn disgybl i ysgol oherwydd gor-alw, rhaid i'r rhieni roi gwybod i'r Awdurdod trwy e-bost neu lythyr os ydynt am i enw eu plentyn gael ei roi ar y rhestr aros a gedwir tan **30 Medi 2021**. **Ar ôl y dyddiad hwn bydd y rhestr aros yn cael eu dileu a dylid nodi bod yn rhaid i geisiadau newydd gael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau, sef 30 Medi.**

Os daw lleoedd gwag ar gael yna cânt eu dyfarnu'n unol â'r meini prawf gor-alw a amlinellwyd yn hytrach nag ers pryd y bu'r cais ar y rhestr aros.

Hysbysiad am Gynnig o le i ddisgybl mewn Ysgol

Bydd rhieni'n cael eu hysbysu trwy e-bost neu lythyr yn cadarnhau, neu fel arall, fod lle ar gael yn yr ysgol ac yn cynnig iddynt y cyfle i dderbyn y lle.

Rhaid i rieni dderbyn yr e-bost cynnig i sicrhau lle yn yr ysgol. Os na fydd rhiant yn ymateb erbyn y dyddiad ar yr e-bost, **mae'n bosibl y bydd y lle yn cael ei dynnu'n ôl ac yn cael ei gynnig i ddisgybl arall.**

Ein bwriad yw cyhoeddi llythyron penderfyniad ynglŷn â'r ceisiadau **Ysgolion Uwchradd ar 1 Mawrth 2021** ac ar **16 Ebrill 2021** ar gyfer ceisiadau **Ysgolion Cynradd**.

Tynnu Cynnig o Le yn Ôl

Tynnir cynnig o le mewn ysgol yn ôl os:

- (i) darganfyddir yn ddiweddarach y cafodd cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol ei gyflwyno (e.e. honni ar gam preswyllo mewn dalgylch ysgol); neu
- (ii) nad yw'r lle yn cael ei dderbyn erbyn y dyddiad a nodir yn yr e-bost/llythyr cynnig. Yna gall y Cyngor dynnu'r cynnig yn ôl a rhoi'r lle i blentyn arall.

Derbyn Disgyblion i Ysgolion ar adegau eraill o'r flwyddyn

Bydd rhieni/gofalwyr sydd eisiau gwneud cais am le i'w plentyn mewn ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd yn dal i orfod llanw a chyflwyno ffurflen gais i'r Awdurdod Derbyn.

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried wrth iddynt gael eu derbyn yn unol â'r trefniadau a'r polisiau derbyn a nodir yn y ddogfen hon gan gynnwys y meini prawf ar gyfer gor-alw os aethpwyd heibio'r nifer derbyn.

Plant Sipsiwn a Theithwyr

Mae'n rhaid i'r Cyngor, yn statudol, sicrhau bod pob plentyn oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg sy'n briodol i'w hoedran, eu galluoedd ac unrhyw anghenion addysgol arbennig, ac yn hybu safonau uchel wrth ddarparu addysg a llesiant plant. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i bob plentyn boed yn breswylwyr parhaol yn yr ardal ai peidio. Bydd ceisiadau derbyn ar gyfer teuluoedd sipsiwn a theithwyr yn cael eu trin gyda'r bwriad o roi'r plant hyn, mor gyflym ag y bo modd, yn yr ysgol agosaf a mwyaf addas sydd ar gael.

2.9 DERBYN I YSGOLION UWCHRADD GAN GYNNWYS CHWECHED DOSBARTH

Mae'n rhaid i blant ysgolion cynradd ddechrau'r ysgol uwchradd yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed.

Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr gwblhau cais ar-lein ar gyfer y disgyblion hyn erbyn y **dyddiad cau h.y. 18 Rhagfyr 2020** gan mai'r ceisiadau hynny gaiff eu hystyried yn gyntaf am unrhyw leoedd sydd ar gael.

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y **dyddiad cau** yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad cau wedi cael eu dyfarnu.

Er nad oes unrhyw sicrwydd y rhoddir lle mewn ysgol, mae'r meini prawf derbyn yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch dynodedig yr ysgol uwchradd. Felly nid yw'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu yn fater sy'n cael ei ystyried.

Crynodeb - ar gyfer Ysgolion Uwchradd Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir

- Ni fydd disgyblion yn **trosglwyddo'n awtomatig** i'r ysgol uwchradd o'r ysgol gynradd.
- **Mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith, i chi gyflwyno cais** i'r Cyngor am le mewn ysgol.
- **Y dyddiad cau** ar gyfer gwneud cais yw **18 Rhagfyr 2020**.
- **Ni roddir ystyriaeth** i'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu. Y cyfeiriad cartref fydd yn cael ei ystyried wrth dderbyn i ysgolion.
- **Nid yw'n bosibl i unrhyw unigolyn na chorff roi sicrwydd** ymlaen llaw y bydd lle ar gael i blentyn mewn ysgol. Rhaid diystyru sylwadau neu addewidion o'r fath.
- Bydd angen ichi aros hyd nes y cewch **e-bost neu lythyr** gan y Cyngor yn eich cyngori os yw eich cais wedi cael ei gymeradwyo neu ei wrthod.

- Ni chaiff plentyn ddechrau yn yr ysgol hyd nes bod y rhiant/gwarcheidwad wedi cadarnhau gyda'r Cyngor ei bod yn derbyn y cynnig o le.

Mae'n rhaid i'r ffurflenni cais gael eu cwblhau ar-lein erbyn 18 Rhagfyr 2020. Os na fydd y ffurflen wedi cael ei chwblhau erbyn y dyddiad cau, mae'r siawns o gael lle yn yr ysgol a ffefrir yn llai, felly hefyd y posibilrwydd o gael cludiant i'r ysgol am ddim.

Ein bwriad yw cyhoeddi llythyrau penderfyniad ynghylch y ceisiadau hyn erbyn **1 Mawrth 2021** neu'r diwrnod gwaith nesaf.

Dylai rhieni sy'n dymuno i'w plentyn gael ei dderbyn i ysgol uwchradd ar adeg sy'n wahanol i amser arferol derbyn disgyblion blwyddyn 7 gysylltu a thrafod y mater yn y lle cyntaf â Phennaeth yr ysgol a fydd hefyd yn gallu rhoi cyngor ar wneud cais am le. Gellir gofyn hefyd am gyngor gan y Tîm Derbyniadau yn yr Adran Addysg a Phlant.

Derbyn i'r Chweched Dosbarth

Dylid trafod trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Chweched Dosbarth Ysgolion Cymunedol â'r ysgol unigol cyn gwneud cais am le.

2.10 NEWID YSGOL

Mae newid ysgol yn gofyn am ystyriaeth ddifrifol a dylid ei drafod yn llawn gyda phennaeth ysgol bresennol eich plentyn yn y lle cyntaf. Mae angen i chi ystyried a yw symud ysgol er budd pennaf y plentyn. Bydd yr Adran Addysg a Phlant hefyd yn darparu cyngor os oes angen.

Ar ôl trafod, os ydych yn dymuno trosglwyddo eich plentyn o un ysgol i'r llall, bydd yn rhaid i chi gwblhau ffurflen gais derbyn plant i ysgol sydd ar gael ar wefan y Cyngor Sir <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/derbyn-i-ysgolion-newid-ysgol>

Bydd y cais yn cael ei asesu yn unol â'r meini prawf a'r weithdrefn dderbyn a amlinellir yn y ddogfen hon.

2.11 YSTYRIED DERBYNIADAU I YSGOLION UWCHRADD

Ar gyfer y broses dderbyn i ysgolion uwchradd, dylid cofio y bydd yr adrannau canlynol a nodir yn 2.8 uchod hefyd yn berthnasol:-

- Cyfeiriad Cartref
- Prawf o'ch Cyfeiriad
- Symud Tŷ / Newid Cyfeiriad
- Cyfrifoldeb ar y Cyd
- Ceisiadau Cynnar
- Ceisiadau Hwyr

- Rhestri Aros
- Tynnu Cynnig o Le yn Ôl
- Plant Sipsiwn a Theithwyr

3. Y MEINI PRAWF YNGHYLCH GOR-ALW O RAN DERBYN DISGYBLION I YSGOLION CYMUNEDOL AC YSGOLION MEITHRIN, CYNRADD AC UWCHRADD GWIRFODDOL A REOLIR

Os derbynnir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd mewn ysgol benodol, neilltuir lleoedd gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac sydd â brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.
3. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond nad oes ganddynt frawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.
4. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sydd â brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.
5. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ond nad oes ganddynt frawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.

D.S. Pan fo Datganiad Anghenion Addysgol yn enwi ysgol benodol, mae'n rhaid datgan hynny'n glir ar y ffurflen gais. Bydd y Cyngor yn ymdrin â cheisiadau o'r fath cyn ystyried ceisiadau eraill a chyn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'r meini prawf gor-alw am leoedd mewn ysgol fel y nodwyd uchod.

Ar gyfer ceisiadau am le Amser Llawn mewn Ysgol Gynradd - ni ellir defnyddio'r cais am le rhan-amser mewn addysg feithrin i blentyn 3 oed yn faen prawf i roi blaenoriaeth wrth ddyrannu lleoedd i blant 4 oed.

Ar gyfer ceisiadau am Flwyddyn 7 Ysgol Uwchradd - ni ellir defnyddio'r ysgol gynradd y mae disgybl yn ei mynychu yn faen prawf i roi blaenoriaeth wrth ddyrannu lle mewn ysgol uwchradd.

NODIADAU

Ym mhob un o'r categorïau uchod:

(a) Y Meini Prawf o ran Pellter

Defnyddir y pellter o'r cartref i'r ysgol yn faen prawf ar gyfer penderfynu blaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth a lle yn yr ysgol i'r sawl sy'n byw agosaf at yr ysgol dros y sawl sy'n byw ymhellach i ffwrdd. Mesurir y pellter gan ddefnyddio Google Maps.

Mesurir y pellter o gyfeiriad y cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr agosaf o fynedfa agosaf yr ysgol i'r pwynt mynediad agosaf i gyfeiriad y cartref o'r briffordd neu lwybr troed cyhoeddus.

(b) Brodyr a Chwiorydd

Bydd plant yn cael eu ystyried yn frodyr neu'n chwiorydd os ydynt yn frawd neu'n chwaer lawn (plant sydd â dau riant yn gyffredin), yn hanner brawd neu'n hanner chwaer (plant sydd ag un riant yn gyffredin), yn frawd neu'n chwaer trwy fabwysiad neu faethiad, yn llysfrawd neu'n llyschwaer (plant sy'n perthyn oherwydd bod eu rhieni'n briod, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil), ond ym mhob achos mae'n rhaid i'r plant fod yn byw yn yr un uned deuluol yn yr un cyfeiriad am y rhan fwyaf o'r wythnos.

Os oes preswyliaeth 50/50, cyfeiriad y riant/gofalwr sy'n cael budd-dal plant sy'n berthnasol a rhaid bod y brawd/chwaer ar y gofrestr ac yn mynychu'r ysgol pan fydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth os bydd angen. Os na ddarperir dystiolaeth pan ofynnir i chi wneud hynny bydd eich cais yn cael ei ystyried fel un heb frawd neu chwaer yn yr ysgol.

(c) Plant Genedigaeth Luosog

O dan unrhyw amgylchiadau pan fydd un lle ar gael a phan fydd y plant cymwys nesaf yn efeilliaid/tripledi bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y ddau / y ddwy / yr holl blant.

(ch) Plant Aelodau Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig

Bydd plant Aelodau Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn cael eu trin fel pe baent o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn cynnwys llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn nodi dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd o fewn y dalgylch.

4. APELIADAU YN YMWNEUD Â DERBYN DISGYBLION I YSGOLION CYMUNEDOL/YSGOLION GWIRFODDOL A REOLIR CYNRADD NEU UWCHRADD

Os na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol, fe'u hysbysir yn ysgrifenedig o'r rheswm/rhesymau am hyn a hefyd am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a'r broses o wneud hynny.

Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir bydd yr ALL yn trefnu bod Panel Apêl Annibynnol yn ystyried yr apeliadau. Cynhelir y broses apeliadau yn unol â Chôd Apelau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Nid oes hawl i apelio yn achos gwrthod caniatâd ar gyfer darpariaeth Blynyddoedd Cynnar (lleoedd rhan-amser i blant 3 oed).

Cynhelir apeliadau yn breifat, heblaw bod y corff neu'r cyrff sy'n gyfrifol am drefnu'r apêl yn rhoi cyfarwyddiadau i'r gwrthwyneb, ond bydd rhieni yn cael cyfle i gyflwyno'u hachos naill ai'n uniongyrchol neu gyda chymorth cynrychiolydd o'u dewis nhw.

Bydd y Clerc yn hysbysu pob parti o benderfyniad y Panel, a fydd yn rhwymo'r Cyngor, y Corff Llywodraethu a'r rhieni.

Rhaid i rieni gyflwyno apêl yn erbyn gwrthod lle mewn Ysgol Gymunedol neu Wirfoddol a Reolir yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democraidd, Adran y Prif Weithredwr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP. Neu gallwch gysylltu â ni drwy e-bost:

PanelAnnibynnolApeliadauDerbyn@sirgar.gov.uk

Cyflwr Meddygol

Os bydd angen tystiolaeth feddygol bydd angen ichi ddarparu copïau o adroddiadau sy'n ymwneud â'r diagnosis gan yr Ymgynghorydd a/neu'r Arbenigwr perthnasol.

Bydd gan Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr eu trefniadau eu hunain ar gyfer cynnal apeliadau annibynnol.

Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir - Amserlen Derbyniadau

Darpariaeth Addysg	Oedran (Ganwyd rhwng)	Dechrau Ysgol	Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Cais	Dyddiad Hysbysu	Dyddiad Cau am Apeliadau
Blynyddoedd Cynnar Addysg Feithrin i Blant 3 oed (Rhan-amser am 2 dymor yn unig mewn ysgolion 3-11)	1 Medi 2018 a 31 Awst 2019	Ionawr 2022 Ebrill 2022 Medi 2022	31 Gorffennaf 2021	Hydref 2021	Dim hawl i apelio
Plant 4 oed - Cynradd (Amser Llawn mewn ysgol gynradd)	1 Medi 2017 a 31 Awst 2018	Medi 2021 Ionawr 2022 Ebrill 2022	31 Ionawr 2021	16 Ebrill 2021 neu'r diwrnod gwaith nesaf	28 Mai 2021
Uwchradd Symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Blwyddyn 7)	1 Medi 2009 a 31 Awst 2010	Medi 2021	18 Rhagfyr 2020	1 Mawrth 2021 neu'r diwrnod gwaith nesaf	12 Ebrill 2021

